**At:** Y Pwyllgor Busnes

**Gan:** Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

**Dyddiad:** Hydref 2010

**Adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad: Newidiadau arfaethedig yn ymwneud â busnes y Cyfarfod Llawn**

**Diben**

1. Gwahoddir Rheolwyr Busnes i ystyried y cynigion ar gyfer newidiadau i Reolau Sefydlog sy'n ymwneud â threfn busnes, y Pwyllgor Busnes, busnes a threfn yn y Cyfarfod Llawn a gweithdrefnau gosod a chyflwyno, Rheolau Sefydlog 6, 7, 8, 9, 11 a 29 presennol, (gweler Rhan 1 ac Atodiad A a B).

2. Gwahoddir Rheolwyr Busnes hefyd i ystyried a ddylid mynd ar drywydd unrhyw gynigion ar gyfer arloesedd gweithdrefnol ym musnes y Cyfarfod Llawn er mwyn sicrhau bod y Cyfarfod llawn yn fwy perthnasol a gwerthfawr (Rhan 2, paragraffau 33 i 36 isod).

**Cefndir**

3. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Adolygiad yn ystyried newidiadau i Reolau Sefydlog er mwyn:

- gwella eglurder y Rheolau Sefydlog;
- sicrhau eu bod yn cyfateb â chonfensiynau cyffredinol y Trydydd Cynulliad a'i ffordd o weithio; a,
- chaniatáu ar gyfer arloesedd a gwelliant.

4. Roedd y Pwyllgor yn credu ac yn cytuno mewn egwyddor y dylai'r Rheolau Sefydlog diwygiedig mewn perthynas â'r Cyfarfod Llawn:

(i) rhoi hyblygrwydd mewn perthynas ag amseriad busnes a chategorïau o fusnes; a,

(ii) gwneud y Cyfarfod Llawn yn rhan fwy perthnasol a gwerthfawr o drafodion y Cynulliad.

5. Caiff y cynigion ar gyfer newidiadau manwl eu hesbonio yn Rhan 1, paragraffau 7 i 32 isod. Nodir y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn Atodiad A i'r papur hwn. Ceir copi glân o'r Rheolau Sefydlog perthnasol, sy'n cynnwys yr holl newidiadau arfaethedig, yn Atodiad B i'r papur hwn.

## Rhan I: Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog

### *Y Prif newidiadau a gynigir*

*i. Categorïau o Fusnes*

6. Mae Rheol Sefydlog 7 yn eithaf penodol o ran y categorïau o fusnes y mae'n eu diffinio, y rhaniad rhwng yr hyn y mae'n rhaid ei ystyried, sef "busnes y llywodraeth", "busnes y Cynulliad" a "busnes heblaw busnes y llywodraeth" a phryd y dylid ymdrin â'r eitemau hyn o fusnes. Ceir hefyd ddarpariaethau sy'n pennu bod yn rhaid trafod eitemau penodol o fusnes bob blwyddyn, er nad yw rhai ohonynt bellach yn berthnasol neu'n briodol.

7. Cynigir y dylid ailddiffinio'r categorïau o fusnes gyda'r goblygiadau a ganlyn:

(i) bydd "busnes y Cynulliad" bellach yn cynnwys pob categori o fusnes a ddiffinnir ar hyn o bryd fel busnes "heblaw busnes y llywodraeth" neu fusnes y "Cynulliad"; felly, dim ond dau gategori o fusnes a geir yn y dyfodol, sef busnes "y llywodraeth" a busnes "y Cynulliad" (RhS 7.11 a RhS 7.12);

(ii) bydd y gyfran 3:2 o amser a rennir rhwng busnes y llywodraeth a busnes heblaw busnes y llywodraeth mewn blwyddyn Cynulliad yn parhau, ond erbyn hyn bydd yn ymwneud â'r gyfran o amser rhwng busnes "y llywodraeth" a'r categori newydd, sef "busnes y Cynulliad" (RhS 7.6);

(iii) mae'r diffiniadau o beth yw busnes "y llywodraeth" neu fusnes "y Cynulliad" wedi'u symleiddio er mwyn osgoi bod yn rhy penodol, h.y. llai o fanylion na'r hyn a geir ar hyn o bryd yn RhS 7.10 – 7.12;

(iv) bydd trefn holl "fusnes y Cynulliad" yn destun pleidleisio cymhwysol, cymwysedig yn y Pwyllgor Busnes fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda busnes "heblaw busnes y llywodraeth"; bydd penderfyniadau eraill yn y Pwyllgor Busnes yn parhau i fod yn destun pleidleisio cymhwysol llawn (RhS 11.7);

(v) darpariaethau llai penodol o ran y trafodaethau y mae'n rhaid eu cynnal yn flynyddol, heb gyfyngu ar allu'r Cynulliad i'w trafod os bydd y llywodraeth yn cynnig hynny neu'r pwyllgor Busnes yn cytuno ar hynny (RhS 7.61 – 7.63).

*ii. Hyblygrwydd o ran amseriad:*

8. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd adolygu'r darpariaethau o ran amseriad yn caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â strwythur diwrnodau'r cyfarfod llawn er mwyn ymateb i ofynion busnes. Er enghraifft, cael yr hyblygrwydd i benderfynu pryd i gynnal busnes, h.y. unrhyw bryd yn ystod y prynhawn a'r naill ddiwrnod neu'r llall.

9. Cynigir y dylid gwneud y newidiadau a ganlyn:

(i) mwy o hyblygrwydd o ran diwrnodau'r cyfarfod llawn / amserau dechrau (rhaid i'r rhain "fel arfer" fod ar ddydd Mawrth / dydd Mercher a dechrau am 1.30pm) (RhS 7.5A);

(ii) mwy o hyblygrwydd o ran pryd y gellir cynnal eitemau "llywodraeth" neu "Cynulliad" yn y cyfarfod llawn ar ddydd Mawrth neu ddydd Mercher; fodd bynnag, dylid trafod eitemau llywodraeth yn gyntaf "fel arfer" (RhS 7.5A);

(iii) gellir rhoi blaenoriaeth i fathau penodol o fusnes o hyd h.y. y rheini y gellir ymdrin â hwy heb rybudd (yn debyg i'r hyn y'i diffinnir ar hyn o bryd fel busnes "y Cynulliad") (RhS 7.15);

(iv) ychwanegu at y rhestr o eitemau y gellir ymdrin â hwy heb hysbysiad ond bydd angen cytundeb y Llywydd erbyn hyn (gweler RhS 7.15);

(v) mwy o hyblygrwydd i'r Llywydd addasu amseriad eitemau yn y cyfarfod llawn er mwyn hwyluso'r modd o gynnal busnes yn effeithiol i adlewyrchu arferion sefydledig (RhS 7.16);

(vi) dileu cyfeiriadau at y cyfnod hwyaf ar gyfer cwestiynau i adlewyrchu arferion sefydledig (RhS 7.48).

10. Byddai'r newidiadau hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor Busnes naill ai barhau â'r trefniadau fel y maent ar hyn o bryd o ran dyrannu amser yn ystod y cyfarfod llawn, neu er enghraifft, cynnal busnes "y llywodraeth" yn gyntaf ar ddydd Mawrth gydag eitem (eitemau) o fusnes "y Cynulliad" i ddilyn, a'r un peth ar ddydd Mercher.

11. Mae'r Rheol Sefydlog 6.1 presennol (cynnig i gymeradwyo amserlenni amlinellol y cyfarfodydd llawn) yn darparu dull o bennu fframwaith arferol o ran pryd y cynhelir amser "y llywodraeth" ac amser "y Cynulliad" (gweler hefyd baragraff 12 isod). Er hynny, byddai'r Pwyllgor Busnes yn parhau â'r hyblygrwydd i addasu hyn pe bai angen yn ystod y tymor er mwyn ymateb i

ofynion busnes a rheoli amser y cyfarfod llawn yn effeithiol, wrth barhau i ddilyn y rhaniad o 3:2 rhwng amser "y llywodraeth" ac amser "y Cynulliad".

*iii. Newidiadau arfaethedig eraill i wella Rheolau Sefydlog*

12. Mae Rheol Sefydlog 6.1 yn darparu i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig i'r Cynulliad gytuno arno, sy'n pennu amserlen y Cynulliad ar gyfer cyfnodau heb fod yn llai na 6 mis. Ni chafodd hyn ei weithredu yn y Trydydd Cynulliad: naill ai nid yw'r pwyllgor Busnes wedi ystyried y mater, neu mae wedi mynd ati i gyhoeddi ei benderfyniadau er enghraifft, yn achos dyddiadau'r toriad. O gofio'r dull gwahanol a awgrymir ym mharagraffau 8 i 11 uchod, rydym yn argymell y dylid ei gadw a'i weithredu yn y dyfodol. Byddai'n rhoi sicrwydd parthed trefn busnes yn y cyfarfod Llawn.

13. Canllawiau'r Llywydd: rydym yn cynnig dull mwy syml i'r Llywydd gyflwyno canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar gynnal busnes y Cynulliad, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddo ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes cyn cyhoeddi canllawiau yn hytrach na'r system gymysglyd bresennol sy'n golygu bod angen cymeradwyaeth y Cynulliad ar gyfer rhai o'r canllawiau ond nid eraill.

14. Dadleuon brys neu gwestiynau brys mewn perthynas â'r Comisiwn; Y Dirprwy Lywydd, yn hytrach na'r Llywydd, fyddai'n penderfynu ar unrhyw geisiadau ar gyfer dadleuon brys neu gwestiynau brys ynghylch cyfrifoldebau'r Comisiwn, a hynny er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau (RhS 7.56 a RhS 7.58 diwygiedig).

15. Darpariaeth newydd i alluogi Aelodau i ychwanegu'u henwau i gynigion neu welliannau a gyflwynwyd os ydynt am gyfleu eu cefnogaeth (mae hyn yn dilyn yr arfer sydd ar hyn o bryd ond yn gymwys mewn perthynas â gwelliannau deddfwriaethol). Pe bai'r Pwyllgor Busnes am fynd ar drywydd y dewis o gyflwyno amser i'r meinciau cefn ar sail cynigion a gyflwynir yn y dyfodol, byddai hyn yn un ffordd o amcangyfrif lefel y gefnogaeth gan Aelodau eraill (ychwanegiad at RhS 7.18 a RhS 7.19).

16. Y rheol sub judice: egluro cwmpas "os bydd achos llys wedi'i gychwyn" drwy gyfeirio at "Ddeddf Dirmygu Llys" yn ôl cyngor gan Keith Bush, fel Prif Gynghorwr Cyfreithiol y Cynulliad (RhS 8.16).

17. Darpariaeth newydd i alluogi'r Cynulliad i wahodd rhywun i'w annerch, os bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno ar hynny. Byddai hyn yn rhoi'r dewis i'r Pwyllgor Busnes ganiatáu i eraill annerch y Cyfarfod Llawn fel eitem ar yr agenda, yn hytrach na chyn dechrau'r cyfarfod llawn fel sy'n digwydd ar hyn o bryd (RhS 8.3A).

18. Diwygiad i alluogi'r Llywydd i osod unrhyw ddogfennau priodol eraill (diwygio RhS 29.2).

***Cynigion i ddiwygio Rheolau sefydlog i adlewyrchu arferion sefydledig***

19. Byddai'r newidiadau a ganlyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Llywydd wrth reoli amser yn y cyfarfod llawn, a hynny er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o amser yn y Siambr:

- mwy o bŵer cyffredinol i'r Llywydd addasu amser eitemau yn y cyfarfod llawn er mwyn hwyluso'r modd o gynnal busnes yn effeithiol (RhS 7.16), gan adlewyrchu arfer a dderbynnir;

- dileu cyfeiriadau at yr amser hwyaf a ganiateir ar gyfer cwestiynau (RhS 7.48).

20. Darpariaeth newydd i esbonio sut y gellir tynnu cynnig neu welliant yn ôl ar ôl ei gynnig h.y. caniateir hyn dim ond os na fydd Aelod yn gwrthwynebu, a hynny i adlewyrchu sefydledig. (RhS 7.22A).

21. Diwygio darpariaethau pleidleisio i adlewyrchu'r "Cyfnod Pleidleisio" a "Phleidleisio drwy Amneidio". Byddai hyn yn galluogi'r Pwyllgor Busnes i bennu amser na ddylid cynnal y bleidlais cyn hyn (neu er enghraifft, "cynhelir y bleidlais unwaith y bydd eitem 5 wedi dod i ben") (Rheolau Sefydlog 6.8, 7.30, 7.31 a 7.35).

22. Darpariaeth newydd i ganiatáu'n benodol ar gyfer pleidleisio "en bloc / i gyd gyda'i gilydd" (RhS 7.33A).

23. Darpariaeth newydd i'w gwneud yn ofynnol bod pleidlais yn cael ei chofnodi lle y bo deddfwriaeth yn golygu bod yn rhaid sicrhau mwyafrif o 40 allan o 60 o Aelodau (RhS 7.35A).

24. Darpariaeth newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol canu'r gloch (oni bai fod pob Aelod yn bresennol), os daw busnes y dydd i ben cyn y cyfnod pleidleisio y cytunwyd arno. Y rheswm dros wneud hyn yw sicrhau na chaiff pleidlais ei chynnal heb roi rhybudd ymlaen llaw i'r holl Aelodau (RhS 7.37A).

25. Darpariaethau newydd ar ddatganiadau: dim ond ychydig iawn o ddarpariaethau sydd yn y Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd sy'n ymwneud â datganiadau. Byddai cynnwys adran ar ddatganiadau yn helpu tryloywder y gweithdrefnau. Byddai'r rhestr o'r rheini sy'n gallu gwneud datganiadau hefyd yn cynnwys Aelodau ac eithrio'r Comisiwn, y llywodraeth neu'r Llywydd, gyda chytundeb y Llywydd. Un enghraifft fyddai cais gan Aelod o'r

meinciau cefn i wneud datganiadau ar gyflwyno deddfwriaeth (RhS 7.41A a RhS 7.41B).

26. Diwygiad i'w gwneud yn ofynnol i gwestiynau "nas gofynnwyd" er iddynt gael eu galw (a heb eu tynnu yn ôl ymlaen llaw) gael eu trosglwyddo i'w hateb yn ysgrifenedig (diwygio RhS 7.57).

27. Disodli'r cysyniad o "hysbysiad busnes" gyda'r ddyletswydd i gyhoeddi hysbysiad busnes (RhS 6.11).

28. Newidiadau arfaethedig i ddarpariaethau'r Pwyllgor Busnes (Rheol Sefydlog 11):

(i) esbonio mai rôl y Pwyllgor Busnes yw "hwyluso'r modd o drefnu trafodion y Cynulliad yn effeithiol": byddai hyn yn cwmpasu rôl ehangach y Pwyllgor Busnes, er enghraifft, wrth gytuno ar gyfarfodydd Pwyllgor ychwanegol y tu allan i amserlen y Cynulliad (RhS 11.1);

(ii) newidiadau i aelodaeth – ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth i'r Pwyllgor Busnes wneud newidiadau i aelodaeth yn ystod cyfnod Cynulliad. Hyd yn hyn, gwnaed hyn o dan Reol Sefydlog 10.3, na ddylai fod yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes mewn gwirionedd, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 11.2. Gellid gwirio'r bwlch hwn drwy ganiatáu i Reol Sefydlog 10.3 fod yn gymwys i'r pwyllgor Busnes (diwygio RhS 11.2);

(iii) dull o bleidleisio yn y Pwyllgor Busnes: ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 11.5 (vi) yn darparu nad yw Rheol Sefydlog 10.32 yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes (gall unrhyw aelod o'r Pwyllgor wneud cais y caiff y bleidlais ei chofnodi yng nghofnodion y cyfarfod, a byddai'r Aelodau yn pleidleisio drwy godi eu dwylo). Nid oes rheswm pam na ddylai hyn fod yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes. Felly, cynigir y dylai Rheol Sefydlog 10.32 fod yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes hefyd (diwygio RhS 11.5(vi));

(iv) dileu Rheol Sefydlog 11.9 sy'n pennu pryd y caiff y Pwyllgor Busnes gyfarfod yn breifat: byddai'r Pwyllgor yn dibynnu ar y darpariaethau cyffredinol i benderfynu cyfarfod yn breifat o dan Reol Sefydlog 10.37 (ix) yn lle hynny, a fyddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd iddo benderfynu pryd i gyfarfod yn breifat.

29. Ni chynigir unrhyw newidiadau i Reol Sefydlog 35 (Ail-wneud y Rheolau Sefydlog, eu Diwygio a'u Hatal).

*Darpariaethau diangen i gael eu dileu*

30. Trefn Busnes:

(i) nid oes angen i'r Pwyllgor Busnes amserlennu cyfarfodydd grŵp gan nad ydynt yn gyfystyr â busnes y Cynulliad – bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd (dileu RhS 6.1 (iii));

(ii) dileu cyfeiriadau at "[d]refniadau teithio" – mae hyn yn rhan o'u cyfrifoldebau "etholaethol" (RhS 6.2);

(iii) nid yw'n bosibl pleidleisio ar ddatganiad, felly nid oes angen nodi na chaniateir cynnal pleidlais ar gyhoeddiad y datganiad busnes (RhS 6.9); byddai'r ddarpariaeth gyffredinol arfaethedig hefyd yn cynnwys y Datganiad Busnes.

*Newidiadau o ran cyflwyniad / aildrefnu'r Rheolau Sefydlog*

31. Cynigiwn y dylid aildrefnu Rheolau Sefydlog 6, 7 ac 11 (gweler Atodiad B). Dylid cael un Rheol Sefydlog ar drefn busnes a fyddai'n cynnwys darpariaethau am:

- y Pwyllgor Busnes a'i swyddogaethau (darpariaethau RhS 11 bresennol);
- trefn busnes a sut y caiff ei bennu (Rheol Sefydlog 6 bresennol); a,
- y diffiniadau o fusnes "y Cynulliad" a busnes "y llywodraeth" a rhestr o'r eitemau y mae'n rhaid eu hystyried yn ystod blwyddyn Cynulliad, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 7 ar hyn o bryd.

32. Byddai hyn yn grwpio'r holl Reolau Sefydlog perthnasol ar sut y mae'r Cynulliad yn trefnu'i fusnes mewn un lle. Yna, dilynir hyn gan Reol Sefydlog 7 (heb y darpariaethau o dan y tri phwynt bwled uchod) a fyddai wedyn ond yn canolbwyntio ar drefn busnes a pha fusnes yr ymdrinnir ag ef yn y cyfarfod llawn (cwestiynau, cynigion, datganiadau a dadleuon byr).

33. Ceir hefyd rhai mân wallau drafftio sy'n symleiddio geiriad y Rheolau Sefydlog neu sy'n symud darpariaethau i safle mwy priodol yn y Rheolau Sefydlog, gyda'r nod o'i gwneud yn haws eu dilyn a'u deall.

## Rhan 2: Cynyddu perthnasedd: arloesedd yn y cyfarfod llawn a chynigion ymgynghori

34. Ail faes y cytunodd y Pwyllgor ei ystyried oedd sut i sicrhau bod busnes y cyfarfod llawn yn parhau'n rhan berthnasol a gwerthfawr o drafodion y Cynulliad. Gwahoddir Rheolwyr Busnes i ystyried y cynigion a ganlyn:

- mân newidiadau i Reolau Sefydlog a fyddai'n ofynnol ar gyfer y rheini a gynigir o dan baragraff 36 ac achos o newid ein prosesau i alluogi'r newidiadau hynny fyddai hyn yn bennaf;

- mae paragraff 37 yn nodi rhai o'r cynigion a wnaed gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

35. Os bydd y Rheolwyr Busnes am fynd ar drywydd unrhyw un o'r cynigion hyn, bydd ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes yn rhoi esboniad mwy manwl o sut y gallai'r rhain weithio ac unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r Rheolau Sefydlog er mwyn eu rhoi ar waith.

36. Cynigir y byddai modd rhoi'r meysydd a ganlyn ar waith o ran arloesedd a gwelliant yn ystod y Pedwerydd Cynulliad (neu yn achos y Ddadl Fer, ei threialu cyn diwedd y Trydydd Cynulliad):

(i) Cwestiynau:

- cynnal balot i ddethol ymlaen llaw pa Aelodau a gaiff gyflwyno cwestiynau yn hytrach na chynnal balot ar gyfer yr holl gwestiynau a gyflwynwyd; dim ond yr Aelodau hynny a gafodd eu dethol ymlaen llaw yn y balot a fyddai'n gallu cyflwyno cwestiynau erbyn y dyddiad cau arferol; byddai hyn yn lleihau faint o amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar baratoi cwestiynau na chaiff eu dethol wedi hynny;

- creu cyfle ar gyfer cwestiynau amserol fel yr awgrymwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad (h.y. bod angen llai na 10 diwrnod o rybudd).

(ii) Cyfleoedd ar gyfer busnes y meinciau cefn:

- caniatáu amser ar gyfer trafod datganiadau barn fel yr awgrymwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad (SOR6, SOR10, SOR7) a fel yr ystyriodd y Pwyllgor Busnes cyn hynny;

- dyrannu amser a dethol cynigion o'r meinciau cefn (gweler hefyd baragraff 15 uchod).

(iii) Dadl Fer:

- rhoi mwy o rybudd i'r Aelod a fu'n llwyddiannus o'i ddadl fer drwy gynnal balot rhwng 6 ac 8 wythnos ymlaen llaw fel yr awgrymwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad (SOR10, SOR 7). Byddai'r dyddiad cau ar gyfer rhoi gwybod i'r Swyddfa Gyflwyno o'i bwnc ar gyfer y balot yn parhau i fod 1 wythnos cyn y ddadl. Byddai hyn yn caniatáu rhagor o amser i Aelodau baratoi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol.

- nid oes angen newid y Rheolau Sefydlog oherwydd hyn a byddai hyd yn oed modd treialu hyn cyn diwedd y Trydydd Cynulliad.

(iv) Trafodaethau ar ddeisebau: mae yna ddigon o hyblygrwydd yn y Rheolau Sefydlog i ganiatáu trafodaethau ar ddeisebau, sef mater arall a godwyd yn y digwyddiad yn y Pierhead a chan y Pwyllgor Deisebau (SOR19).

37. Gwahoddir Rheolwyr Busnes i fynegi eu barn am y materion mwy arloesol a nodwyd yn y dystiolaeth, yn benodol:

- galw Gweinidogion yn ôl fel yn Nhŷ'r Cyffredin yng Nghanada ("the Late Show") (SOR11, SOR10);

- cyflwyno slotiau i ganiatáu i Aelodau godi materion amserol gyda llai o rybudd na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd (SOR11);

- anerchiadau cyntaf: caniatáu slot byr ar gyfer Aelodau newydd i gyflwyno'u hunain ac i bennu eu huchelgeisiau ar gyfer y tymor ac ar gyfer eu hetholaeth (SOR7).

**Penderfyniad**

38. Gwahoddir y Pwyllgor i:

(i) cyflwyno sylwadau ar y newidiadau arfaethedig fel y'u nodir yn Rhan 1, paragraffau 6 i 33 a a chytuno mewn egwyddor unrhyw ddiwygiadau i Reolau Sefydlog 6, 7, 8, 9, 11 a 29;

(ii) ystyried y cynigion yn Rhan 2 a nodi pa feysydd y maent am fynd ar eu trywydd ymhellach fel y cynigir ym mharagraffau 34 i 37.